*Datganiad i'r Cyfryngau*
*2 Medi 2026*
*I'w ryddhau ar unwaith*

# Cyllid y Loteri Genedlaethol i gyrraedd Cymunedau Cymru gyfan drwy Sinema yn 2026

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) wedi dyrannu bron i £170,000 o gyllid Loteri Genedlaethol y BFI i chwech ar hugain o sinemâu annibynnol, gwyliau ffilmiau a sgriniau cymunedol Cymru, drwy un ar hugain o brosiectau, a hynny drwy dri llinyn ariannu: Sbotolau, y Gronfa Arddangos Ffilmiau a Rip It Up.

Bydd arian yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl leol, a fydd yn gallu gwylio'r ffilmiau annibynnol a rhyngwladol diweddaraf yn y DU ar stepen eu drws, am brisiau fforddiadwy. O ffilmiau amgylcheddol wedi'u curadu gan bobl ifanc, i dymhorau ffilmiau Cymreig sy'n dathlu 130 mlynedd o sinema yng Nghymru, gall cynulleidfaoedd gymdeithasu a chefnogi mannau poblogaidd yng nghanol eu cymdogaethau.

Yn Ne-orllewin Cymru, bydd prosiect tair blynedd newydd 'Sbotolau' dan arweiniad Gŵyl Ffilmiau Wales One World (WOW) yn datblygu dangosiadau ffilm cymunedol mewn trefi a phentrefi fel Llanbedr Pont Steffan, Hermon, Casnewydd a Chastellnewydd Emlyn lle mae cynulleidfaoedd gwledig yn wynebu teithiau trafnidiaeth gyhoeddus hir neu anymarferol i gael mynediad at ddiwylliant y sgrin.

***Esbonia Amy Daniel, Cydlynydd Sbotolau pam y bydd y cyllid yn drawsnewidiol ar lefel leol:***

*"Byddwn yn mentora gwirfoddolwyr a llysgenhadon a fydd yn mynd ymlaen i siapio ac arwain darpariaeth sinema yn eu cymunedau, sy'n golygu bod y ddarpariaeth yn perthyn iddyn nhw. Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos gyda chanolfannau sefydledig yn y rhanbarth i gyfnewid gwybodaeth ac adeiladu sinema sy'n mynd ar draws y siroedd cyffiniol, gan gefnogi mynediad at ddiwylliant yn ogystal â'r economi leol. Mae sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau tymor hirach yn beth prin, ac mae hyn yn golygu y gallwn greu newid."*

Mae pedwar ar hugain o brosiectau wedi cael eu cefnogi drwy Gronfa Arddangos Ffilmiau Canolfan Ffilm Cymru, o'r gymdeithas ffilm hynaf yn y Fenni, i strategaeth gynulleidfa newydd Galeri Caernarfon sy'n cynnwys clwb ffilm dan arweiniad y gymuned (SineGlwb) a Ffilms Er Newid a gyflwynir mewn cydweithrediad â grwpiau lleol. Yn Ystradgynlais, bydd llinyn 'Screen Social' y Neuadd Les yn chwalu rhwystrau cymdeithasol, iechyd, ariannol a rhwystrau eraill i fynychu'r sinema, ac, ar draws Cymru, bydd Labordy Hinsawdd Ieuenctid Sheba Soul yn annog pobl ifanc i ddeall gwreiddiau argyfyngau amgylcheddol drwy ffilm a dylunio camau gweithredu cymunedol syml, cydweithredol mewn ymateb.

***Esbonia Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru pam mae'r gwaith hwn mor bwysig:***

*"Yn ogystal â dod â'r ffilmiau gorau i Gymru, rhywbeth sydd gan lawer o'n prosiectau a gefnogir yn gyffredin yw bod grwpiau cymunedol yn cymryd rhan weithredol wrth gyflwyno eu gweithgareddau sinema lleol. Megis y tymor 'cydweithrediadau cymunedol' yn Theatr y Torch sy'n rhedeg drwy gydol Mis Medi Ail Law a Mis Hanes Anabledd, neu waith curadurol Gŵyl Animeiddio Caerdydd gyda theuluoedd o geiswyr lloches ifanc a ffoaduriaid yng nghanolfan Oasis Caerdydd. Mae sinema annibynnol yn ffordd wych i bobl leol gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol yn eu milltir sgwâr. Mae eu lleisiau yn helpu i lunio cyfeiriad diwylliant yn y fan honno ac, yn gyfnewid, mae sinemâu yn cynnig gwasanaethau cymdeithasol a lles hanfodol sy'n lleihau unigedd ac yn cynhyrchu incwm lleol."*

Hefyd yn ystod 2026 cynhelir Rip It Up - tymor RhCFf y BFI ledled y DU sy'n dathlu wyneb newidiol diwylliant a mynegiant ieuenctid ar y sgrin - o lawenydd a chyfeillgarwch i dor-calon a gwrthryfel. Yng Nghymru, bydd wyth partner yn cyflawni prosiectau hyd at fis Hydref 2026. Bydd gan Chapter, Caerdydd, dri llinyn gan gynnwys Hei, Mr Urdd! – detholiad o ffilmiau o Archif Darlledu Cymru sy'n dathlu diwylliant ieuenctid, gyda thrafodaeth yn Gymraeg. Yn Cellb ym Mlaenau Ffestiniog, bydd Fideo Hud yn 'troi'r sain i fyny', gan archwilio is-ddiwylliannau Cymru o fudiad Cool Cymru o'r 1990au i sîns creadigol 'DIY' sy'n dod i'r amlwg heddiw - gan gyfuno ffilm archif â gwaith ieuenctid newydd, dangosiadau, trafodaethau, cerddoriaeth fyw a gweithgareddau cyfranogol.

**Esbonia Rosemary Adjoa Dery, Cynhyrchydd Gŵyl Ffilm Watch Africa, sut y bydd eu prosiect 'Young, Black & Bold' yn galluogi lleisiau ifanc Du Cymru i lunio dyfodol diwylliant ffilm:**

*"Mae creu mannau lle gall pobl greadigol ifanc Ddu ddod at ei gilydd, gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin, rhannu syniadau ac archwilio eu creadigrwydd yn hynod o bwysig. Trwy'r rhaglen hon, rydym am wneud datganiad beiddgar: Mae straeon Du, lleisiau Du a chreadigrwydd Du yn bwysig yma yng Nghymru. Rydym yn perthyn i'r canolfannau diwylliannol hyn, a dylem deimlo ein bod wedi'n grymuso i gymryd ein lle ynddynt. Mae gweithio ochr yn ochr â sefydliadau o'r un anian, megis Pafiliwn Butetown a Charnifal Butetown yn ein galluogi i gysylltu gwahanol gymunedau, syniadau ac arferion creadigol, tra bydd ein partneriaeth â Chapter yn ein helpu i adeiladu pontydd at bobl nad oeddent efallai wedi teimlo o'r blaen bod canolfan gelfyddydau yn fan iddyn nhw."*

Daw'r prosiectau ar adeg pan fydd cynulleidfaoedd Cymru yn cael cyfle i leisio'u barn, gan ddweud wrth Adran Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon y Llywodraeth, yn union pa effaith y mae sinemâu yn ei chael ar eu bywydau drwy arolwg Achosion Da'r Loteri Genedlaethol: Ariannwch beth sy'n bwysig i chi, sydd ar agor tan 23 Medi 2026.

Cefnogir y prosiectau gan Ganolfan Ffilm Cymru, sy'n rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI (RhCFf) sy'n dyrannu arian o gyllid Achosion Da'r Loteri Genedlaethol i sicrhau bod y dewis mwyaf posibl o sinema ar gael i bawb ledled y DU. Mae arian yng Nghymru yn cael ei weinyddu gan Ganolfan Ffilm Cymru drwy Chapter fel Sefydliad Arweiniol y Ganolfan Ffilm.

Mae mwy na £30M yn cael ei godi bob wythnos ar gyfer achosion da ledled y DU gan y Loteri Genedlaethol.

# Prosiectau a Gefnogir

## De-ddwyrain Cymru

**Prosiect: Cymdeithas Ffilm y Fenni Tymor 2026-2027 (CAFf)**
**Sefydliad: Cymdeithas Ffilm y Fenni**
**Dyddiadau: Medi 2026 – Mawrth 2027**
Mae'r Gymdeithas Ffilm hiraf yng Nghymru - Cymdeithas Ffilm y Fenni - yn sinema gymunedol sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr, ar gyfer aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau. Mae’r gymdeithas yn darparu 2 ddangosiad bob pythefnos rhwng Medi 2026 a Mawrth 2027. Mae'r Gymdeithas yn dangos ffilmiau nodwedd annibynnol o’r DU, ffilmiau rhyngwladol gydag is-deitlau, yn ogystal â ffilmiau byrion.

**Prosiect: Rhaglen Ffilm Gymunedol (CAFf)**
**Sefydliad: Theatr Volcano (Abertawe)**
**Dyddiadau: Mai 2026 – Mawrth 2027**
Bydd Theatr Volcano yn Abertawe yn datblygu cynnig sinema gymunedol annibynnol newydd, gan gynnwys clwb ffilm Tsieineaidd mewn partneriaeth â Chymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru, yn ogystal â phartneriaethau gyda Fforwm Anabledd Abertawe a Dinas Noddfa Abertawe. Trwy gael gwared ar rwystrau i fynediad ac ymgysylltu â selogion ffilm ifanc, yn ogystal â gweithredu cyfleoedd hyfforddi gyda chlwb ffilm myfyrwyr y Brifysgol leol, maent yn anelu at gyrraedd cynulleidfa fwy o faint a mwy amrywiol.

**Prosiect: Africine Caerdydd (CAFf)**
**Sefydliad: Watch Africa (Caerdydd)**
**Dyddiadau: Hydref 2026 – Mawrth 2027**
Gan adeiladu ar dros 10 mlynedd o gyflwyno, bydd gŵyl Watch Africa yn canolbwyntio ar ddatblygu cynulleidfaoedd mewn tri lleoliad yn Ne, Dwyrain a Gorllewin Caerdydd: Chapter, Pafiliwn Grange ac Oasis. Bydd yr ŵyl yn gweithio'n agos gyda sefydliadau celfyddydol a chreadigol ehangach sy'n gysylltiedig â chymunedau Du e.e. Reel Futures, AFJ Cardiff a Jukebox i ddangos ffilmiau Affricanaidd ac Affrica ar wasgar ar draws ystod o genres, gan gynnwys ffilmiau ffuglen, dogfen a ffilmiau byrion, ochr yn ochr â sesiynau holi ac ateb, trafodaethau panel, a digwyddiadau cymunedol. Byddant yn ehangu ac yn datblygu cysylltiadau â chymunedau Affricanaidd yng Nghaerdydd yn ogystal â gweithio'n agos gyda Phrifysgolion (PDC, Met Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd) a chynnig trafodaethau panel yn ogystal â chyfleoedd i fyfyrwyr raglennu, cynhyrchu a chydlynu digwyddiadau.

**Prosiect: The Spirit of ’51, Power to the People!, Hei Mr Urdd! (Rip It Up)**
**Sefydliad: Canolfan Gelfyddydau Chapter (Caerdydd)**
**Dyddiadau: Mehefin – Awst 2026**
Mae Rip It Up yn Chapter yn cwmpasu tri phrif linyn - The Spirit of '51, sy'n olrhain hanes 75 mlynedd o ddiwylliant ieuenctid yn y DU gyda ffilmiau i danio atgofion a myfyrdodau pobl; Power to the People! – rhaglen o ffilmiau a ddewiswyd ac a hyrwyddwyd gan bobl ifanc gyda nodiadau ffilm a thrafodaethau o'u safbwyntiau nhw; a Hei, Mr Urdd! – detholiad o ffilmiau o Archif Darlledu Cymru yn dathlu diwylliant ieuenctid Cymru, gyda thrafodaeth yn Gymraeg.

**Prosiect: Beth mae'n ei olygu i fod yn ifanc yng Nghasnewydd: Rip It Up yng Nglan yr Afon**
**Sefydliad: Theatr a Chanolfan y Celfyddydau Glan yr Afon (Casnewydd)**
**Dyddiadau: Mehefin – Hydref 2026**

Bydd Canolfan Glan yr Afon yn dathlu'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ifanc yng Nghasnewydd gyda dangosiadau o Ish (2026), Human Traffic (1999), Pride (2014) a Rocks (2021) a fydd yn apelio at ddiwylliant ieuenctid a'r sîn gerddoriaeth leol. Ochr yn ochr â'r ffilmiau bydd fideos cerddoriaeth gan fandiau lleol sy'n codi lleisiau pobl greadigol Casnewydd o ystod amrywiol o gefndiroedd.

**Prosiect: Young, Black & Bold (Rip It Up)**
**Sefydliad: Watch Africa (Caerdydd)**
**Dyddiadau: Awst – Hydref 2026**
Mae Young, Black & Bold yn rhaglen ffilm a diwylliant feiddgar, dan arweiniad pobl ifanc wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, sy'n canolbwyntio ar straeon Du Prydeinig am wrthryfel, hunaniaeth a llawenydd. Trwy ddangosiadau o Rocks, Young Soul Rebels a Babylon, ochr yn ochr â chynllun Rhaglenwyr Ffilm Ieuenctid Du, mae'r prosiect yn meithrin pobl greadigol sy'n dod i'r amlwg rhwng 19 a 25 oed ledled De Cymru. O gerddoriaeth fyw, bwyd a marchnadoedd i gystadlaethau'r gair llafar a dylunio, mae'r rhaglen yn adeiladu llwyfan bywiog ar gyfer mynegiant a datblygu sgiliau. Gan arwain at ddigwyddiad olaf ym mis Hydref, yn arddangos ffilmiau a chelfyddyd arall i ddathlu Mis Hanes Pobl Dduon, bydd WAFF yn creu lle i leisiau ifanc Du Cymru siapio dyfodol diwylliant ffilm yng Nghymru.

## De Cymru

**Prosiect: Wild about Film (CAFf)**
**Sefydliad: Awel Aman Tawe / Hwb y Gors (Dyffryn Aman)**
**Dyddiadau: Mai 2026 – Ionawr 2027**
Lleoliad cymunedol newydd carbon isel yn Nyffryn Aman sy'n anelu at adeiladu diwylliant ffilm groesawgar ar lawr gwlad sy'n ysbrydoli gweithredu amgylcheddol cadarnhaol a chysylltiadau cymunedol. Mae eu rhaglen, Wild About Film, yn rhaglen ddangos fisol o ffilmiau amgylcheddol gyda thrafodaethau wedi'u curadu. Maent yn archwilio cyfres o ffilmiau wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd ifanc 12 oed ac yn hŷn, yn ogystal â ffilmiau ad-hoc gan gynnwys The National Emergency Briefing. Trwy bwyllgor rhaglennu gwirfoddol newydd, byddant yn cefnogi ymgysylltu ymarferol yn y gymuned, tra hefyd yn annog cynulleidfaoedd i weithredu yn erbyn yr argyfwng hinsawdd.

**Prosiect: Datblygu 'Screen Social' a Rhaglen Annibynnol (CAFf)**
**Sefydliad: Y Neuadd Les (Ystradgynlais)**
**Dyddiadau: Mehefin 2026 – Mawrth 2027**
Mae'r Neuadd Les yn archwilio tri llinyn ffilm drwy'r prosiect hwn – eu rhaglen ffilm gyffredinol, Screen Social a Cinemore. Mae'r rhaglen sinema gyffredinol yn canolbwyntio ar ffilmiau Prydeinig (gan gynnwys ffilmiau Cymreig) a ffilmiau annibynnol o'r Unol Daleithiau sy'n apelio at bobl dros 40 oed, ochr yn ochr â dangosiadau o ffilmiau teuluol yn ystod y gwyliau. Mae'r rhaglen Screen Social yn cynnig teitlau annibynnol, Prydeinig (gan gynnwys Cymreig), clasurol, dogfen a rhyngwladol o ansawdd uchel, tra hefyd yn chwalu rhwystrau mynychu i gynulleidfaoedd sy'n ei chael hi'n anoddach mynychu oherwydd rhwystrau cymdeithasol, iechyd, ariannol neu eraill. Mae ffilmiau Cinemore yn ffilmiau dogfen, ffilmiau rhyngwladol neu'n ffilmiau sy'n seiliedig ar faterion sy'n gysylltiedig â digwyddiadau gweledig ac yn aml mae ganddynt elfennau ychwanegol fel siaradwyr, digwyddiadau amgylcheddol neu ddigwyddiadau cymdeithasol ynghlwm.

**Prosiect: Gŵyl Ffilm Werdd/Dathlu 130 mlynedd o sinema yng Nghymru (CAFf)**
**Sefydliad: Canolfan Celfyddydau Pontardawe**

**Dyddiadau: Awst 2026 – Tachwedd 2026**
Mae Canolfan Celfyddydau Pontardawe yn cyflwyno dau linyn yn ystod 2026/27 i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd: Bydd llinyn Gŵyl Ffilm Werdd yn cynnwys saith ffilm gyda dau ddangosiad fesul ffilm dros saith diwrnod. Bydd y ffilmiau’n archwilio themâu cynaliadwyedd, natur, cymuned, a'n perthynas â'r amgylchedd trwy ddangosiadau a thrafodaethau difyr gyda’r gynulleidfa. Bydd tymor 130 Mlynedd o Sinema Cymru yn cynnwys chwe ffilm yn cael eu dangos sawl tro. Bydd y rhaglen yn cysylltu cynulleidfaoedd â threftadaeth sinematig Cymru, gan dynnu sylw at esblygiad straeon Cymru ar y sgrin, ac yn creu cyfleoedd hygyrch i bobl ddarganfod, dathlu ac ymwneud â diwylliant ffilm yn eu cymuned leol.

## De-orllewin Cymru

**Prosiect: Cydweithrediadau Cymunedol (CAFf)**
**Sefydliad: Theatr y Torch (Aberdaugleddau)**
**Dyddiadau: Medi 2026 – Mawrth 2027**
Mae Theatr y Torch yn cynnig rhaglen o ffilmiau annibynnol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfres o ddangosiadau a digwyddiadau sy'n dathlu amrywiaeth eu cymunedau. O Fis Medi Ail Law i Fis Hanes Anabledd, bydd pob dangosiad yn cynnwys ffilmiau annibynnol a wnaed gan bobl sydd â phrofiad byw o'r cymunedau hynny. Byddant yn cydweithio â sefydliadau partner o bob rhan o Sir Benfro i sicrhau bod y ffilmiau'n gynrychioliadol ac yn gweithio i ddatblygu'r rhaglen ehangach ar gyfer ffilm yn y ganolfan.

**Prosiect: Datblygu Ein Cynnig Craidd (CAFf)**
**Sefydliad: Theatr Gwaun (Abergwaun)**
**Dyddiadau**: **Mai 2026 - Mawrth 2027**
Yn 2026-27 mae Theatr Gwaun yn parhau i gynnig rhaglen uchelgeisiol a chymhellol drwy gydol y flwyddyn o ffilmiau annibynnol Prydeinig a rhyngwladol (ochr yn ochr â ffilmiau prif ffrwd). Yn y cynllunio wythnosol/misol bydd dau linyn o weithgarwch i ennyn diddordeb a datblygu cynulleidfaoedd iau (POINT Presents a Kids Club), gan ddatblygu cynulleidfaoedd yn ystod y dydd ymhellach trwy ddangosiadau Bore Llun a chynnal dangosiadau hygyrch drwy ddangosiadau Croeso Dydd Mercher (ffilmiau gydag is-deitlau a/neu ddangosiadau ymlaciedig) gyda'r nos.

**Prosiect: Gŵyl Ffilmiau Cymru (CAFf)**
**Sefydliad: Theatr Gwaun (Abergwaun)**
**Dyddiadau**: **23-25 Hydref 2026**
Gan ddathlu 130 mlynedd o Sinema yng Nghymru, mae Theatr Gwaun yn lansio eu Gŵyl Ffilmiau Cymru gyntaf, gyda'r bwriadau i droi'r ŵyl yn ddigwyddiad blynyddol. Gan fynd â chynulleidfaoedd ar siwrnai drwy hanes ffilmiau Cymru, bydd y rhaglen yn cynnwys ffilmiau nodwedd Cymreig, clasuron a ddewiswyd gan gynulleidfaoedd lleol, ffilmiau archif/ôl-weithredol, ffilmiau byrion lleol a digwyddiadau arbennig.

**Prosiect: Cymdeithas Ffilm Hwlffordd (Rip It Up)**
**Sefydliad: Cymdeithas Ffilm Hwlffordd (Hwlffordd)**
**Dyddiadau: Medi 2026 – Hydref 2026**
O'u canolfan yn Theatr Myrddin yng Ngholeg Sir Benfro, byddant yn dangos dwy ffilm o raglen Rip it Up: Quadrophenia (1979) a Pride (2014), gyda siaradwyr gwadd i'w cyhoeddi. Byddant yn cynnig gostyngiadau ar docynnau neu fynediad am ddim i fyfyrwyr.

## Gorllewin Cymru

**Prosiect: Abertoir – Gweithgarwch gydol blwyddyn (CAFf)**
**Sefydliad: Gŵyl Arswyd Abertoir (Aberystwyth)**
**Dyddiadau: Hydref 2026 – Mawrth 2027**
Ar ôl dathlu 20 mlynedd o gynnal digwyddiad ar raddfa fawr bob mis Tachwedd, ar gyfer eleni yn unig, bydd yr ŵyl yn canolbwyntio ar ddod â'i hymroddiad a'i hangerdd i linyn gydol blwyddyn. Bydd y gweithgarwch yn cwmpasu llawer o'r agweddau sydd wedi ei gwneud mor adnabyddus a phoblogaidd dros y ddau ddegawd diwethaf. O ffilm fud gyda chyfeiliant byw, i ddigwyddiad oddi ar y safle, rhagddangosiadau a chydweithrediadau gyda grwpiau megis aelodau cynulleidfa ifanc Cymdeithas Arswyd Prifysgol Aberystwyth.

**Prosiect: Lantern Loves (CAFf)**
**Sefydliad: Sinema'r Llusern Hud (Tywyn)**
**Dyddiadau: Medi 2026 – Mawrth 2027**
Mae rhaglen 'Lantern Loves' Sinema'r Llusern Hud yn gyfres o 26 o ffilmiau annibynnol sydd wedi'u cynllunio i ddatblygu'r gynulleidfa, gyda ffocws ar deuluoedd a phobl ifanc. Bydd digwyddiadau arbennig, sgyrsiau clwb ffilm a themâu amgylcheddol. Yn ogystal â ffilmiau teuluol clasurol gyda gweithgareddau creadigol am ddim £1 y tocyn, bydd dangosiadau talwch faint fynnwch ar gyfer ffilmiau byrion Cymreig o'r archif sy'n clymu â dathliadau 125 mlynedd y Llusern. Nod y prosiect yw cysylltu'r ganolfan, y tîm a'r rhaglen eclectig, nad yw'n brif ffrwd gyda chynulleidfaoedd, gan annog teuluoedd o bob math i rannu profiadau sinema yn Sinema'r Flwyddyn y DU gyntaf BIFA!

## Canolbarth Cymru

**Prosiect: Sinema Brydeinig, Annibynnol a'r Byd 26/27 (CAFf)**
**Sefydliad: Canolfan Gelfyddydau Wyeside (Llanfair-ym-Muallt)**
**Dyddiadau: Mai 2026 – Mawrth 2027**
Bydd Canolfan Gelfyddydau Wyeside yn cynnig rhaglen ffilm amrywiol, gan ddod â sinema Brydeinig, annibynnol a'r byd i'w cynulleidfa, gan gynnwys dangosiadau cynhwysol a hygyrch. Mae eu rhaglen yn ystyried y gymuned leol, gan gynnig dangosiadau gydag isdeitlau wythnosol, dangosiadau ymlaciedig bob mis (i'r rhai sydd ag awtistiaeth ac anghenion dysgu/synhwyraidd) a 'dangosiadau prynhawn gyda phaned a bisgedi' sy'n caniatáu i gynulleidfaoedd gymdeithasu, gyda ffocws penodol ar gynulleidfaoedd hŷn a chynulleidfaoedd sy'n gymdeithasol ynysig.

**Prosiect: Ffilm Llanfyllin (CAFf)**
**Sefydliad: Ffilm Llanfyllin / Arts Connection (Powys)**
**Dyddiadau: Medi 2026 – Mawrth 2027**
Gan gydweithio ag Arts Connection, mae Ffilm Llanfyllin yn sinema gymunedol leol a gefnogir gan dîm ymroddedig o wirfoddolwyr. Mae ffilmiau'n cael eu dangos bob pythefnos yn yr Old New Inn o fis Medi tan fis Mai, gan gynnig amrywiaeth wedi'i guradu'n ofalus o ffilmiau annibynnol yn bennaf a ddewiswyd gyda'r gynulleidfa mewn golwg. Yn 2026 bydd hyn yn cynnwys ffilmiau Cymreig fel rhan o ddathliadau 130 mlynedd o sinema yng Nghymru a dangosiadau a gyflwynir mewn partneriaeth â grwpiau lleol fel Dolen Ffermio (defnydd tir a bywoliaethau gwledig), Sefydliad y Merched a BRACE (gweithredu ar gyfer yr hinsawdd).

**Prosiect: Rhaglen Ffilm Gymreig 2026-27 (CAFf)**
**Sefydliad: Sinema Sadwrn (Llansadwrn, Sir Gaerfyrddin)**
**Dyddiadau: Medi 2026 – Mawrth 2027**

Fel rhan o'u rhaglen Sinema Sadwrn yn Llyfrgell Llansadwrn, bydd Sinema Sadwrn yn dangos wyth ffilm gan gynnwys dwy ffilm annibynnol o Gymru: 'Effi o Blaenau' a 'Madfabulous'. Ar ôl y dangosiadau, gall cynulleidfaoedd aros a sgwrsio mewn amgylchedd hamddenol gyda'r gymuned.

## Gogledd Orllewin Cymru

**Prosiect: Ffilmiau Pawb - Sinema Cellb 10 (CAFf)**
**Sefydliad: Cellb (Blaenau Ffestiniog)**
**Dyddiadau: Mai 2026 – Chwefror 2027**
Mae Ffilmiau Pawb - Sinema Cellb 10 yn rhaglen sinema estynedig, blwyddyn o hyd, i ddathlu pen-blwydd Cellb yn 10 oed ym mis Mai 2027. Bydd y rhaglen yn ehangu eu cynigion ffilm cynhwysol, yn enwedig ar gyfer eu cynulleidfaoedd rheolaidd – pobl ifanc yn eu harddegau, pensiynwyr, teuluoedd a chynulleidfaoedd ffilmiau'r byd, gydag un dangosiad y mis ar gyfer pob grŵp. Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar lwyddiant eu cynllun peilot parhaus "Ffilmiau i Bawb" trwy gynyddu graddfa a chwmpas y gweithgareddau sy'n arwain at eu pen-blwydd.

**Prosiect: Strategaeth Datblygu Cynulleidfa Sinema Galeri (CAFf)**
**Sefydliad: Galeri (Caernarfon)**
**Dyddiadau: Mehefin 2026 – Mawrth 2027**
Bydd Galeri yn ymchwilio i ddeall eu cynulleidfaoedd sinema, gan eu bod am i'w rhaglen adlewyrchu'n well y gymuned maen nhw'n ei gwasanaethu ac agor drysau newydd i'r rhai sydd wedi cael eu tangynrychioli yn y gorffennol. Maent yn anelu at ail-ddychmygu rhaglen fwy amrywiol, uchelgeisiol ochr yn ochr â'u cynnig craidd o ffilmiau prif ffrwd craidd. Drwy weithgareddau fel Clwb Ffilm newydd a arweinir gan y gymuned (SineGlwb) a chydweithrediad Ffilms Er Newid gyda grwpiau cymunedol lleol a Galeri Cymunedol – dangosiadau cymunedol i deuluoedd, dangosiadau ymlaciedig a gweithgareddau cysylltiedig. Maent yn anelu at adeiladu dealltwriaeth gliriach o'r hyn y mae eu cynulleidfaoedd yn ei werthfawrogi.

**Prosiect: 130 Mlynedd o Ffilmiau Cymreig (yn arwain at 125 mlynedd o Neuadd Dwyfor) (CAFf)**
**Sefydliad: Neuadd Dwyfor (Pwllheli)**
**Dyddiadau: Mai 2026 – Mawrth 2027**
I ddathlu 130 mlynedd o sinema yng Nghymru, ac yn arwain at ben-blwydd Neuadd Dwyfor yn 125 oed fel sinema weithredol, bydd y prosiect hwn yn cyflwyno rhaglen un mis ar ddeg o dreftadaeth ffilm Cymru a chreu ffilmiau Cymreig cyfoes. Ochr yn ochr â dangosiadau wedi'u curadu, bydd y rhaglen yn cael ei chyfoethogi gan sgyrsiau, trafodaethau panel, siaradwyr gwadd a digwyddiadau holi ac ateb, gan greu cyfleoedd i gynulleidfaoedd mewn ardal wledig ymgysylltu'n ddyfnach â straeon Cymreig ar y sgrin. Bydd sinema Gymreig gyfoes, clasuron cwlt, ffilmiau Cymraeg clodwiw a gweithiau allweddol o dreftadaeth sgrin Cymru yn cynnig darlun cynrychioliadol o hanes creu ffilmiau Cymreig ddoe a heddiw. Bydd y prosiect yn dathlu bywydau, diwylliant a hunaniaeth Cymru fel y cynrychiolir ar y sgrin, gan gydnabod rôl y sinema wrth adlewyrchu a siapio straeon cenedlaethol a chymunedol.

**Prosiect: Gŵyl Hirddydd yr Haf yn Dathlu Sinema a’r Môr (CAFf)**
**Sefydliad: Sinema Gymunedol Neuadd Bentref Llangoed (Ynys Môn)**
**Dyddiadau: 19–21 Mehefin 2026**
Cynhaliodd Sinema Gymunedol Neuadd Bentref Llangoed Ŵyl Hirddydd yr Haf yn dathlu Sinema a’r Môr rhwng 19 a 21 Mehefin 2026, gan archwilio pŵer trawsnewidiol ffilm a nofio ar gyfer iechyd meddwl. Wedi'u lleoli ar arfordir Ynys Môn, mae'r digwyddiadau yn adlewyrchu’r dirwedd a'r

diwylliant lleol, gyda theithiau cerdded, nofio a digwyddiadau lles cymdeithasol ochr yn ochr â ffilmiau byrion, ffilmiau nodwedd annibynnol a chlasuron.

**Prosiect: Fideo Hud (Rip It Up)**
**Sefydliad: Cellb (Blaenau Ffestiniog)**
**Dyddiadau: Medi – Hydref 2026**
Mae Fideo Hud: Diwylliant Ieuenctid Cymru yn rhaglen a ddechreuodd yn CellB sy'n archwilio is-ddiwylliannau Cymreig - o fudiad Cool Cymru o'r 1990au i sîns creadigol 'DIY' sy'n dod i'r amlwg heddiw. Gan adeiladu ar raglen beilot BFI Southbank wedi'i guradu gan y rhaglenwyr ifanc Gwenno a Cian, mae'r prosiect yn cyfuno ffilm archif (Fideo Hud) gyda gwaith newydd a wnaed gan bobl ifanc gan gynnwys *Glasbren*. Trwy ddangosiadau, trafodaethau, cerddoriaeth fyw a gweithgarwch cyfranogol, mae'r rhaglen (dan arweiniad tîm Fideo Hud: Yannick, Jake, Gwenno a Cian) yn rhoi llwyfan i leisiau ieuenctid Cymru go iawn sy'n aml wedi'u tangynrychioli ar y sgrin, gan gysylltu mynegiant o'r gorffennol a'r presennol o wrthryfel, hunaniaeth a chreadigrwydd, tra'n ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd ledled Gogledd Cymru. Mae CellB yn TROI'R SAIN I FYNY!

**Prosiect: Chwala fo! (Rip It Up)**
**Sefydliad: Neuadd Dwyfor (Pwllheli)**
**Dyddiadau: Medi – Hydref 2026**
Mae Chwala fo! yn brosiect dan arweiniad pobl ifanc sy'n gweithio gyda thri sefydliad ieuenctid gwahanol ym Mhwllheli i raglennu a chynnal tri dangosiad pwrpasol sy'n archwilio diwylliant ieuenctid ledled Cymru a'r DU. Wedi'i guradu gan bobl ifanc, gyda gwaith celf a nwyddau penodol wedi'u creu gydag artistiaid proffesiynol a rhestr chwarae unigryw a set DJ i gyd-fynd â phob ffilm – bydd yr holl weithgarwch yn cael ei ddogfennu trwy ddelwedd symudol a ffotograffiaeth.

**Prosiect: Rebels (Rip It Up)**
**Sefydliad: Theatr y Ddraig (Abermaw)**
**Dyddiadau: Mehefin – Hydref 2026**
Ffilmiau, gweithgareddau creadigol ac atgofion a rennir yn canolbwyntio ar ddiwylliant ieuenctid a gwrthryfel. Bydd y dangosiadau'n cynnwys trafodaeth holi ac ateb sy'n hel atgofion, gweithdy creadigol i bobl ifanc sy'n dylunio crysau pêl-droed, arhosfan sgwteri 'vintage' a noson fwyd Jamaica mewn partneriaeth â Sheba Soul Ensemble.

## Ledled Cymru

**Prosiect: Gŵyl Animeiddio Japan 2026 (CAFf)**
**Sefydliad: Gŵyl Animeiddio Japan Kotatsu (Caerdydd ac Aberystwyth)**
**Dyddiadau: Medi 2026 – Tachwedd 2026**
Wrth iddi gyrraedd ei phen-blwydd yn 15 oed yn 2026, mae Kotatsu yn dangos ffilmiau nodwedd animeiddiedig Japaneaidd dros 5 diwrnod mewn lleoliadau yng Nghymru gan gynnwys Chapter a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, yn ogystal â dangosiad cyfnewid gyda Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Tokyo Zokei. Mae'r digwyddiadau yn cynnwys Jero 11, gitarydd a chwaraewr shamisen o'r DU, a fydd yn perfformio cyfuniad o gerddoriaeth metel trwm wedi'i gymysgu ag offerynnau traddodiadol Japaneaidd a ffilmiau ar thema llên gwerin Japan fel 'Dojoji'. Byddant hefyd yn cynnig ymlaciedig i deuluoedd ifanc trwy bartneriaeth gyda ToyBox Project, sy'n darparu teganau a gemau ar gyfer cornel

gweithgareddau teuluol am ddim, yn ogystal â marchnad, Caffi Manga a raffl.

**Prosiect: FLY! Into this entangled world (CAFf)**
**Sefydliad: Sheba Soul Ensemble (Bangor, Aberystwyth ac Abermaw)**
**Dyddiadau: Mehefin 2026 – Mawrth 2027**
Bydd rhaglen Sheba Soul o bedair ffilm - Polluters and Plunderers, Women Hold Up the Sky, A Whisper in the Woods, ac A Path to Climate Justice yn teithio i dair canolfan yng Nghymru, gan archwilio cyfrifoldeb amgylcheddol, cyfiawnder cymdeithasol, a gweithredu ar y cyd. Trwy gyfuno adrodd straeon ymchwiliol, profiadau bywyd, ac ymgysylltiad myfyriol â natur, mae'r rhaglen yn gwahodd cynulleidfaoedd i ddeall gwreiddiau argyfyngau amgylcheddol yn well a'r posibiliadau ar gyfer newid go iawn. Bydd gweithgareddau cyfranogol fel 'Cylch Stori ar gyfer y Ddaear' yn galluogi cyfranogwyr i rannu profiadau personol, atgofion neu obeithion sy'n gysylltiedig â natur a newid amgylcheddol. Bydd Labordy Hinsawdd Ieuenctid yn annog pobl ifanc i ddylunio gweithredoedd cymunedol syml ar y cyd fel cymdogaeth fwy gwyrdd neu syniadau lleihau gwastraff. Bydd sesiynau mapio cymunedol rhyngweithiol yn caniatáu i gyfranogwyr nodi pryderon amgylcheddol lleol a chyfleoedd i weithredu ar y cyd.

**Prosiect: Gŵyl Animeiddio Caerdydd drwy gydol y Flwyddyn 2026/27 (CAFf)**
**Sefydliad: Gŵyl Animeiddio Caerdydd (Amrywiol)**
**Dyddiadau: Awst 2026 – Mawrth 2027**
Rhaglen wyth mis o animeiddio annibynnol, Cymreig, Cymraeg a rhyngwladol, sy'n cyfuno dangosiadau teithiol, digwyddiadau hygyrch, cyd-guradu cymunedol, treftadaeth sgrin Cymru, a gweithgareddau gyda gwerth ychwanegol yng Nghaerdydd, ledled Cymru ac ar-lein. Bydd y rhaglen yn dod â ffilmiau byrion Cymreig cyfoes ochr yn ochr â threftadaeth animeiddio Gymreig nad yw'n cael ei dangos yn aml i gymunedau sydd â darpariaeth animeiddio leol gyfyngedig drwy Gŵyl Animeiddio Caerdydd ar Daith. Byddant yn gwneud hynny tra'n gweithio gydag Oasis Caerdydd, Clwb Ffilm Fyddar a phartneriaid lleoliadau i leihau rhwystrau sy'n ymwneud â chost, iaith, daearyddiaeth, hygyrchedd ac ymdeimlad o berthyn. Bydd y rhaglen estynedig ar gyfer 2026/27 yn canolbwyntio ar ddatblygu cynulleidfaoedd sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i fynediad – gan weithio gyda mwy o ganolfannau, partneriaid newydd gan gynnwys academyddion sgrin, a chynnig mwy o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, gyda model teithio deuol estynedig sy'n cyfuno nodweddion treftadaeth â'r ffilmiau byrion animeiddiedig Cymreig diweddaraf.

**Prosiect: Iris on the Move 2027 (CAFf)**
**Sefydliad: Gwobrau Iris (Amrywiol)**
**Dyddiadau: Chwefror – Mawrth 2027**
Detholiad wedi'i guradu o ffilmiau byrion o Ŵyl Ffilmiau LHDTC+ Gwobrau Iris 2026, gan gynnwys uchafbwyntiau o'r cystadlaethau a sesiynau panel Prydeinig a Rhyngwladol Gorau. Byddant hefyd yn curadu rhaglen i ddathlu ac amlygu cyfraniad Iris i ddiwylliant sgrin Cymru dros yr 20 mlynedd diwethaf gyda'r thema bod Iris 20 "i bawb". Bydd y rhaglenni'n cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â chanolfannau lleol a sefydliadau cymunedol, gyda dangosiadau'n cael eu cynnal mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru, gan gynnwys Bangor, Caernarfon, Aberystwyth, Abertawe, Pontardawe, Caerdydd a Wrecsam. Y nod yw tyfu'r gynulleidfa ar gyfer straeon LHDTC+, dathlu amrywiaeth, meithrin deialog gymunedol trwy gefnogi'r canolfannau sy'n cymryd rhan gyda mentrau allgymorth a marchnata i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd.

**Prosiect: FLY! Over the Rip-ples (Rip It Up)**
**Sefydliad: Sheba Soul Ensemble (Bangor, Aberystwyth ac Abermaw)**
**Dyddiadau: Gorffennaf – Hydref 2026**
Bydd aelodau ifanc o dîm Sheba Soul yn curadu ac yn arwain y gwaith o gyflwyno tri digwyddiad yn Theatr y Ddraig (Abermaw), Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Pontio (Bangor) gyda gweithgareddau cofleidiol creadigol ochr yn ochr â dangosiadau o This is England a Young Soul Rebels. Gall cynulleidfaoedd ddisgwyl dawnsio, dadleuon a swper o bysgod a sglods!

**- DIWEDD -**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**
Jade Atkinson, Cydlynydd Marchnata Aelodau - 02920 311 057 / jade@filmhubwales.org
Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau - 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru - 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

## Nodiadau i Olygyddion:

### Ynglŷn â Chanolfan Ffilm Cymru
Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn ariannu, hyfforddi ac yn cynghori sefydliadau sy'n dangos ffilmiau annibynnol o'r DU a ffilmiau rhyngwladol, o wyliau ffilmiau i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 270 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 380 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 717,500 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith ledled y DU o wyth canolfan sy'n ffurfio Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI (RhCFf), gyda chefnogaeth cyllid Achosion Da'r Loteri Genedlaethol. Rheolir Canolfan Ffilm Cymru gan Chapter. Rydyn ni hefyd yn arwain Gwnaethpwyd yng Nghymru, prosiect sy'n dathlu ffilmiau sydd â chysylltiadau Cymreig, a gefnogir gan Gymru Greadigol.

Canolfan Ffilm Cymru: Gwefan, X (Twitter gynt), Facebook, Instagram
Gwnaethpwyd yng Nghymru: Instagram, TikTok, Facebook, podlediad Made in Wales, YouTube, Letterboxd.

### Ynglŷn â Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI
Gyda chefnogaeth cyllid Achosion Da'r Loteri Genedlaethol, mae Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI (RhCFf) yn ganolog i nod y BFI i sicrhau bod y dewis gorau o ffilmiau ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012, mae RhCFf yn gydweithrediad unigryw, ledled y DU sy'n cynnwys wyth Canolfan a reolir gan ddeg sefydliad ffilm blaenllaw a chanolfannau sydd wedi'u lleoli'n strategol ledled y DU. Mae RhCFf yn cefnogi dull cryfach a mwy cysylltiedig o ddatblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau'r DU a ffilmiau rhyngwladol ar y sgrin fawr ac mae ganddo dros 2,000 o aelodau sy'n cynnwys sinemâu, gwyliau, canolfannau celfyddydau cymysg, sinema gymunedol ac archifau ffilm, sy'n gallu cael mynediad at hyfforddiant, cyllid, cymorth rhaglennu a chyfleoedd rhwydweithio.

Mae RhCFf hefyd yn cefnogi datblygu talent gyda Swyddogion Gweithredol Talent RHWYDWAITH Y BFI ym mhob un o'r Canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth i ddarganfod a chefnogi ysgrifenwyr, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaoedd.

Canolfannau Ffilm RhCFf y BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth â Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad y Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

Gwefan

**Ynglŷn â'r BFI**

Rydym yn elusen ddiwylliannol, dosbarthydd cyllid y Loteri Genedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Dyma yw ein cenhadaeth:

- Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU
- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol y BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol o'r DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn canolfannau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda'r Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen gofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol. Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Jay Hunt.

Gwefan, Facebook, X (Twitter gynt), Instagram

**Ynglŷn â Chapter**

Wedi'i sefydlu can artistiaid ym 1971, mae Chapter yn ganolfan ryngwladol ar gyfer celfyddydau a diwylliant. Mae'n gartref i'r celfyddydau, lle cynhyrchir a chyflwynir gwaith dyfeisgar, apelgar o'r radd flaenaf. Mae eu horiel yn comisiynu ac yn cynhyrchu arddangosfeydd o gelfyddyd gorau'r wlad a'r byd. Mae eu mannau theatr yn llwyfan i waith arbrofol sy'n procio'r meddwl. Mae eu sinemâu yn cynnig ffilmiau rhyngwladol a heriol ochr yn ochr â nifer o wyliau a digwyddiadau. Mae'r sinemâu yn dod â rhagor o ffilmiau i ragor o bobl mewn rhagor o leoedd drwy Ganolfan Ffilm Cymru.

Ochr yn ochr â'i rhaglen graidd, mae Chapter hefyd yn gartref i 56 o artistiaid a chwmnïau creadigol sy'n gweithio yn eu stiwdios. O animeiddwyr a chwmnïau cynhyrchu ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau, i artistiaid, dylunwyr a ffotograffwyr, yn ogystal â chwmni fframio celf, argraffwyr a stiwdios recordio. Mae'r gymuned greadigol wrth galon holl weithgarwch Chapter.

Daw'r rhaglen a'r gymuned ynghyd yn eu Caffi Bar sydd wedi ennill gwobrau. Gyda lle i hyd at 120 o bobl eistedd, mae'r caffi yn lle gwych i gyfarfod ffrindiau, darganfod lle tawel i weithio, neu i fwynhau diod neu damaid o fwyd blasus, ffres wedi'i baratoi â chynhwysion a brynwyd yn lleol, o fwydlen eang.

Mae croeso i bawb!

Gwefan, Facebook, X (Twitter gynt), Instagram